

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Cymunedol Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybie ar nos Fercher, Tachwedd 15^{fed}, 2017 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	I Rh. Llewelyn A. Davies N. Evans	B. Rees D. Hopkins	P.H. Roberts Mrs K.D.L Davies
------------	---	-----------------------	----------------------------------

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	Mrs J.E. Collins	Mrs Ll. Hindley
------------	------------------	-----------------

127.

Penodi Cadeirydd i'r cyfarfod

Penderfynwyd apwyntio Is-Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies, yn Gadeirydd ar y Cyfarfod.

128.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

129.

Prosiectau ar gyfer 2018-19

Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi derbyn nifer o geisiadau ar gyfer prosiectau addas am y flwyddyn ariannol nesaf. Trafodwyd y prosiectau canlynol:

1. Gosod matiau blodau gwyllt mewn amrywiol leoliadau
2. Gosod cloc Cilyrychen o fewn ffiniau pentref Llandybie
3. Gwelliannau i orsaf drên Llandybie
4. Gwaith i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus
5. Gosod pafin i un ochr o Heol Aberlash (rhan yn unig)
6. Darparu twmpathau cyflymder yn rhan isaf Heol y Brenin
7. Cynnal a chadw goleuadau stryd/llwybrau troed
8. Cynnal a chadw'r parciau a gymeradwyd i'n gofal o dan Trosglwyddo Asedau
9. Gosod Cysgodfan Bys gyferbyn ag ystâd Maes y Deri, Saron
10. Adleoli y Swyddfa Bost i Neuadd Goffa Llandybie
11. Cwrtiau Tennis Llandybie – llif oleuadau
12. Newidiadau i'r Twmpathau Cyflymder yn Heol Woodfield, Llandybie a Heol Waterloo, Penygroes.

Roedd y Cynghorydd A. Davies hefyd am hysbysu'r Aelodau eraill ei fod wedi bod yn trafod gyda grŵp lleol, ac fe fyddai'n dod â'r mater hwn gerbron y Cyngor Llawn yn ddiweddarach.

Roedd y Swyddog Technegol ond wedi derbyn cost dangosol am osod pafin yn Aberlash, ac roedd y gost o gynnal a chadw'r parciau yn dal yn anhysbys, ac yn ddibynnol ar faint y costau roedd y Clerc yn ceisio cael gafael arnynt ar hyn o bryd.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor Parciau a Mannau Chwarae yn cyfarfod i flaenoriaethu'r gwaith sydd ei angen unwaith ein bod yn gwybod y costau go-iawn. Cytunwyd hefyd bod y Pwyllgor yn ystyried cynllun strategol hir dymor ar gyfer y defnydd o'n cyfleusterau hamdden nawr bod y Parciau wedi cael eu trosglwyddo.

Cytunwyd **argymell** i'r Cyngor bod yr holl brosiectau yn cael eu hystyried fel rhan o'r raglen Datblygu Cymunedol ar gyfer 2018-2019.

130.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.15 yh.